



## Disgrifiad Swydd ar gyfer Pennaeth

Ysgol Bodhyfryd

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Bodhyfryd yn bwriadu penodi Pennaeth neilltuol i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth gref a strategol.

Ysgol Bodhyfryd yw ysgol Gymraeg gyntaf Wreccsam, ac ar flwyddyn dathlu ei phen blwydd yn 75 mlwydd oed, rydym yn chwilio am unigolyn addas i'n harwain wrth ddechrau'r 75 mlynedd nesaf. 'Gyda'n Gilydd' yw arwyddair yr ysgol, rydym yn ceisio unigolyn brwdfrydig, galluog a fydd yn arweinydd ar dîm a theulu'r ysgol wrth i ni weithio 'Gyda'n Gilydd'.

Mae cymuned yr ysgol yn un deuluol a chynhwysol.

Ein bwriad yw cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr, diddorol chyfoeth, a datblygiad disgyblion sy'n aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol.

Mae'r amgylchedd yn un byrlymus, lle mae perthynas arbennig rhwng ein disgybion a'n staff.

## DISGRIFIAD SWYDD – PENNAETH

<b>TEITL Y SWYDD</b>	Pennaeth
<b>CYFLOG</b>	L14 (£72,579) i L20 (£84,100).
<b>NATUR Y CONTRACT</b>	Llawn amser / Parhaol *
<b>GWASANAETH</b>	Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
<b>PRIF SWYDDOG</b>	Karen Evans
<b>LLEOLIAD</b>	Ysgol Bodhyfryd, Wreccsam
<b>YN ATEBOL I'R</b>	Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar a Chadeirydd y Llywodraethwyr

## CYFLWYNIAD

Mae'r penodiad hwn yn destun amodau cyflogaeth cyfredol athrawon a geir yn y [Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol](#), y Ddeddf Addysg, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, [y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#), yr holl ddeddfwriaeth addysgol gyfredol ac erthyglau llywodraeth yr ysgol.

Bydd y Pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth neilltuol ar gyfer Ysgol Bodhyfryd, gan weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a'r holl randdeiliaid i greu amgylchedd addysgol sy'n ysgogi, yn cefnogi ac yn meithrin – gan alluogi pob disgybl i gyflawni eu potensial llawn. Bydd y Pennaeth yn:

- Arwain, yn datblygu ac yn cefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol, gan sicrhau aliniad â Chwricwlwm Cymru
- Codi safonau cyrhaeddiad i bob dysgwr
- Datblygu addysgu a dysgu effeithiol
- Sicrhau lles a llesiant yr holl ddysgwyr a staff
- Meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, y gymuned ehangach a rhanddeiliaid allanol

Bydd y Pennaeth yn dangos ac yn hyrwyddo'r safonau, y gwerthoedd a'r gwarediadau a nodir yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

Y gwerthoedd a'r gwarediadau cyffredinol:

- Hawliau proffesiynol
- Y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Hawliau'r dysgwyr
- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Y dysgwr proffesiynol
- Swyddogaeth y system

A'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

- Arweinyddiaeth
- Addysgeg
- Dysgu proffesiynol
- Arloesedd
- Cydweithredu

Bydd angen i ddeiliad y swydd gyflawni cyfrifoldebau proffesiynol Pennaeth fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

\*Bydd y Pennaeth yn cael ei gyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, gyda'r Corff Llywodraethu'n gweithredu fel y cyflogwr at ddibenion cyfrifoldebau rheoli a chyflogaeth ar lefel ysgol. Mae'r Pennaeth yn atebol i'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar am arweinyddiaeth a pherfformiad effeithiol yr ysgol.

## DIBEN Y SWYDD

Bydd y Pennaeth yn:

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol hynod effeithiol i'r ysgol
- Gweithredu fel ceidwad gwerthoedd ac ethos yr ysgol

- Creu diwylliant lle mae disgyblion yn ddiogel, yn hapus ac yn profi bywyd ysgol cadarnhaol sy'n cyfoethogi
- Sefydlu a chynnal ethos a chyfeiriad strategol yr ysgol ynghyd â'r bwrdd llywodraethu a thrwy ymgynghori â chymuned yr ysgol
- Bod yn atebol am ddatblygu a gweithredu strategaethau, strwythurau a systemau gyda holl randdeiliaid yr ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth a rennir yr ysgol a chyflawni gwelliant parhaus i'r ysgol
- Nodi problemau a rhwystrau i effeithiolrwydd ysgolion, a datblygu strategaethau ar gyfer gwella ysgolion sy'n realistig, yn amserol ac yn addas i gyd-destun yr ysgol
- Gweithio ar y cyd â staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach
- Arwain trwy esiampl, ac ysbrydoli ac ysgogi cymuned yr ysgol.
- Sicrhau addysgu a dysgu rhagorol trwy ddylunio cwricwlwm effeithiol, addysgeg a dysgu proffesiynol
- Dyrannu adnoddau ariannol yn briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Rheoli staff ac adnoddau
- Sicrhau cynhwysiant, amrywiaeth a mynediad
- Cyflawni'r holl gyfrifoldebau statudol, gan sicrhau bod cydymffurfiaeth a diogelu yn cael eu blaenoriaethu
- Hyrwyddo a diogelu'r defnydd o'r Gymraeg fel prif gyfrwng dysgu a chyfathrebu ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol
- Cydweithio ag awdurdod lleol Wrecsam ac ysgolion eraill i gyfrannu at wella ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol

#### **RHINWEDDAU'R PENNAETH**

Bydd y Pennaeth yn:

- Arwain trwy esiampl a modelu arfer gorau o ran ymddygiad proffesiynol a datblygiad personol
- Cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn arweinyddiaeth ysgol a chynnal safonau uchel o ran moeseg, ymddygiad ac ymddygiad proffesiynol
- Bod yn esiampl i bawb yn ein cymuned a chreu ysgol sy'n wynebu tuag allan i weithio gydag ysgolion eraill
- Arwain cymuned yr ysgol gydag uniondeb, gweledigaeth a disgwyliadau uchel
- Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus ar draws cymuned yr ysgol
- Gwasanaethu er budd holl ddisgyblion yr ysgol a Wrecsam
- Hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn unol â chategori iaith yr ysgol ac ymrwymiad Wrecsam i ddwyieithrwydd a Chymraeg 2050

#### **CYFRIFOLDEBAU CYFFREDINOL**

- Arwain a rheoli'r ysgol yn effeithlon drwy gyflawni trefnau, trefniadaeth, strwythurau, canllawiau a pholisïau clir
- Arwain a hyrwyddo arferion gwella a datblygu'r ysgol
- Meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd da â'r holl randdeiliaid – disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r cymunedau lleol
- Helpu ac arwain yr holl staff i weithio gyda'i gilydd i gynnal ysgol sydd â disgwyliad uchel o'i disgyblion a safonau addysgu a dysgu uchel
- Annog datblygiad proffesiynol yr holl staff, ac ymrwymo i sicrhau hynny
- Ymrwymo i wella llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.
- Sicrhau bod yr holl strategaethau Diogelu ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol, a pharhau i ddatblygu'r ffocws lefel uchel ar e-ddiogelwch.
- Cynnal lefel uchel o ymrwymiad i les disgyblion a staff a rôl ganolog llais y disgybl

## ARWEINYDDIAETH; CYFEIRIAD STRATEGOL A DATBLYGIAD YR YSGOL

- Arwain trwy esiampl, ac ysbrydoli ac ysgogi cymuned yr ysgol
- Creu gweledigaeth, ethos a chyfeiriad ar gyfer yr ysgol sy'n hybu lefelau uchel o gyflawniad ac sy'n bodloni nodau cydraddoldeb
- Sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn cael ei mynegi'n glir, ei rhannu, ei deall a'i gweithredu'n effeithiol gan bawb
- Creu a gweithredu cynllun datblygu strategol ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei danategu gan gynllunio ariannol cadarn, mewn cyd-destun cenedlaethol a lleol, sy'n nodi blaenoriaethau a thargedau i sicrhau safonau uchel o ran cyflawniad, addysgu a dysgu, a lles
- Ysgogi eraill a gweithio gydag eraill i greu hinsawdd effeithiol a diwylliant proffesiynol cyffredin
- Cefnogi'r holl staff i gyflawni blaenoriaethau a thargedau'r ysgol a rhoi'r cymhelliant a'r ymrwymiad iddynt i sicrhau gwelliant parhaus
- Sicrhau y bydd yr hinsawdd a'r diwylliant dysgu a grëir yn yr ysgol yn galluogi dysgwyr i ddod yn ddysgwyr effeithiol, brwdfrydig, annibynnol a hyderus sy'n ymrwymedig i ddysgu gydol oes ac yn meddu ar y sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes
- Sicrhau bod y cynllunio strategol yn ystyried amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun penodol yr ysgol a'i chymuned
- Dangos arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn gan sicrhau ymgysylltiad ac ymrwymiad yr holl staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu ar draws yr ysgol
- Arwain prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella'r ysgol, gan ddefnyddio tystiolaeth i yrru cynnydd
- Monitro ac adolygu pob agwedd ar gyrhaeddiad, blaenoriaethau, targedau a chyfeiriad strategol, a chymryd y camau priodol i ddatblygu'r ysgol
- Datblygu a meithrin potensial arwain pobl eraill ar bob lefel i adeiladu galluoedd arwain yn yr ysgol ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol

## ARWAIN ADDYSGU A DYSGU

- Sicrhau bod y weledigaeth a'r ethos yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i Bedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru
- Sicrhau bod amgylchedd dysgu'r ysgol a'i hystafelloedd dosbarth yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol i bawb
- Sefydlu dulliau creadigol, ymatebol, myfyriol ac effeithiol o ddysgu ac addysgu, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu annibyniaeth, hyder a gwydnwch
- Sefydlu a chynnal ethos o her a chefnogaeth lle y gall yr holl ddysgwyr lwyddo a bod yn rhan o'u dysgu eu hunain
- Trefnu a gweithredu'r cwricwlwm fel ei fod yn bodloni gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru
- Sefydlu arweinyddiaeth effeithiol o'r cwricwlwm, gan gynnwys arweinwyr pwnc gydag arbenigedd perthnasol a mynediad i rwydweithiau a chymunedau proffesiynol
- Gweithredu strategaethau i sicrhau gweithdrefnau effeithiol o ran asesu, a thrin a rhannu data
- Monitro ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion a nodi a gweithredu ar feysydd i'w gwella
- Sicrhau parhad addysgu a dysgu ym mhob dosbarth o fewn yr ysgol
- Sicrhau ffocws ysgol gyfan ar gyflawniad a lles dysgwyr sy'n gyson ac yn barhaus
- Hyrwyddo addysgu cynhwysol ar draws y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ADY.

### ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) A CHYNHWYSIANT

- Hyrwyddo diwylliant ac arferion sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a sicrhau bod pob disgybl, ni waeth beth fo'i angen neu gefndir, yn gallu cael mynediad a ffynnu o fewn cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol
- Meddu ar ddisgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer pob disgybl ag ADY, gan sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i gefnogi'n rheolaidd trwy addysgu o ansawdd uchel ac ymyriadau priodol
- Sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni, gofawyr, asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol eraill i adeiladu partneriaethau cryf, cydweithredol sy'n cyfrannu at ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)
- Gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn cyflawni ei dyletswyddau statudol o dan Ddeddf ADYTA (2018) a Chod ADY Cymru (2021)
- Mae ein disgwyliadau ar gyfer pob disgybl sydd ag ADY yn uchelgeisiol, gan gynnwys y disgyblion sy'n derbyn ein darpariaeth Adnoddau. Rydym yn sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i gefnogi'n gyson trwy addysgu o ansawdd uchel ac ymyriadau priodol.

### ARWAIN A RHEOLI STAFF

- Datblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol â holl aelodau cymuned yr ysgol
- Creu amgylchedd sy'n galluogi eraill i dyfu'n broffesiynol a themlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Datblygu, grymuso a chynnal gwaith tîm effeithiol ar draws yr ysgol
- Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth unigolion eraill i hyrwyddo arweinyddiaeth sy'n cael ei rhannu a'i gwasgaru ar draws yr ysgol
- Cynllunio, gwerthuso a chefnogi gwaith staff, gan ddirprwyo'n briodol a gwerthuso canlyniadau'n glir
- Galluogi staff i ddatblygu profiad ac arbenigedd yn eu rolau priodol drwy nodi anghenion, gan sicrhau rhaglen effeithiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Galluogi systemau rheoli perfformiad i weithredu'n effeithiol ac ymgymryd â'r holl ofynion gwerthuso
- Cynnal cymhelliant personol a staff ar draws yr ysgol
- Cydnabod a dathlu cyfrifoldebau a chyflawniadau unigolion a thimau
- Gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr undebau i sicrhau cyfathrebu effeithiol, datrys problemau'n gynnar, a gweithredu polisïau a gweithdrefnau teg a chyson, yn unol â chytundebau cenedlaethol a lleol.

### TREFNU STAFF AC ADNODDAU'N EFFEITHIOL

- Gweithio gyda llywodraethwyr a chydweithwyr i recriwtio staff o ansawdd uchel
- Sicrhau bod yr holl staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a chyfrifoldebau priodol
- Trefnu a datblygu staff i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u sgiliau, eu harbenigedd a'u profiad a sicrhau y rheolir yr ysgol yn effeithiol
- Rheoli a threfnu dosbarthiadau a grwpiau o blant i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a bod anghenion datblygiad personol plant yn cael eu diwallu.
- Sefydlu blaenoriaethau ar gyfer gwariant a monitro effeithiolrwydd gwariant yn unol â rheoliadau ariannol yr ALL
- Monitro'r defnydd o adnoddau gyda'r bwriad o gyflawni gwerth am arian, yng nghyd-destun ariannol yr ysgol

### DIWYLLIANT AC YMDDYGIAD YR YSGOL

- Creu diwylliant lle mae disgyblion yn ddiogel, yn hapus ac yn profi bywyd ysgol cadarnhaol sy'n cyfoethogi
- Cynnal safonau addysgol uchelgeisiol er mwyn paratoi disgyblion o bob cefndir ar gyfer eu cam nesaf o addysg a bywyd
- Sicrhau diwylliant o broffesiynoldeb staff
- Annog safonau uchel o ymddygiad gan ddisgyblion, yn seiliedig ar reolau ac arferion sy'n cael eu deall gan staff a disgyblion, ac a ddangosir yn glir gan bob oedolyn yn yr ysgol
- Defnyddio dulliau cyson a theg o reoli ymddygiad, yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol
- Defnyddio dulliau cyson a theg, yn unol â pholisiau'r ysgol ar ymddygiad ac ADY.

### SICRHAU ATEBOLRWYDD

- Darparu gwybodaeth a chynghor i'r Corff Llywodraethu fel y gall gyflawni ei gyfrifoldebau am sicrhau addysgu a dysgu effeithiol a safonau cyrhaeddiad gwell gan gynnwys adroddiad ysgrifenedig bob tymor i'r Corff Llywodraethu (o leiaf 3 adroddiad ysgrifenedig y flwyddyn)
- Darparu gwybodaeth berthnasol ac adroddiad cydlynol a chywir am berfformiad yr ysgol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, a chynorthwyo'r Corff Llywodraethu i ddarparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni
- Creu ethos lle mae'r holl staff yn deall eu hatebolrwydd yn glir a sicrhau bod yr atebolrwydd hwn yn destun adolygiad trylwyr
- Defnyddio data'n effeithiol i fonitro cynnydd a phennu targedau heriol yn seiliedig ar ddisgwyliadau sy'n gyson uchel
- Datblygu a chynnal diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer eich hun ac eraill, gan gymryd camau priodol pan fo perfformiad yn anfodddhaol, a sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hefyd
- Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas â deddfwriaeth cyfle cyfartal
- Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol ynglŷn â darparu addysg a deddfwriaeth briodol arall
- Sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol, tryloyw ac adeiladol â chymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur, gan feithrin diwylliant o barch i'r ddwy ochr, deialog agored ac ymrwymiad a rennir i les a datblygiad yr holl staff.

### CYMUNED

- Sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned
- Adeiladu ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill yn y clwstwr, i rannu arfer gorau a chefnogi cynnydd yr ysgol
- Sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan gynhyrchiol fel aelod o'i chymuned leol, genedlaethol a byd-eang.
- Datblygu cysylltiadau cadarnhaol â rhieni, ysgolion eraill, sefydliadau addysgol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnes a diwydiant, er mwyn gwella addysgu a dysgu a datblygiad personol disgyblion
- Hyrwyddo strategaethau cadarnhaol ar gyfer datblygu agweddau priodol tuag at anabledd, anghenion dysgu ychwanegol, cydraddoldeb, cynhwysiant a chysylltiadau da o ran hil
- Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr ALL, i ddarparu ar gyfer lles dysgwyr a'u teuluoedd.
- Datblygu dinasyddiaeth yn ein dysgwyr a'u hannog i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol ac ehangach

## YCHWANEGOL

Nid yw'r rhestr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn y disgrifiad swydd hwn yn hollgynhwysol. Efallai y bydd yn cael ei diwygio fel yr ystyrir yn angenrheidiol gan y Llywodraethwyr, er mwyn diwallu anghenion newidiol yr ysgol yn y dyfodol.

Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud dyletswyddau eraill sy'n briodol i lefel y rôl.

Dyddiad adolygu diwethaf: [dyddiad yr adolygwyd y ddogfen hon ddiwethaf]

Dyddiad adolygu nesaf: [dyddiad y bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu nesaf]

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad:

---

Llofnod Deiliad y Swydd:

Dyddiad:

---

---



## Manyleb Person ar gyfer y Pennaeth

Ysgol Bodhyfryd

	<b>MANYLEB PERSON</b>	<b>HANFODOL DYMUNOL</b>	<b>TYSTIOLAETH</b>
<b>1</b>	<b><i>CYMWYSTERAU A HYFFORDDIANT</i></b>		<i>C/G/TY/Cy</i>
1.1	Statws Athro Cymwys (SAC)	H	C
1.2	Gradd neu gymhwyster cyfatebol	H	C
1.3	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) neu dystiolaeth o gyflawni'r cymhwyster yn llwyddiannus cyn y penodiad.	H	C
1.4	Profiad llwyddiannus blaenorol fel Pennaeth	D	C/G
1.5	Amrywiaeth o ddysgu a datblygiad proffesiynol diweddar a pherthnasol	H	C
1.6	Sgiliau Cymraeg	D	C
1.7	Profiad fel arolygydd Estyn neu rôl gyfwerth	D	C
<b>2</b>	<b><i>PROFIAD AC ARWEINYDDIAETH YSGOL</i></b>		<i>C/G/TY/Cy</i>
2.1	Profiad llwyddiannus diweddar fel Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol gyda thystiolaeth o godi safonau yn y swydd bresennol	H	C/Cy/G
2.2	Profiad eang mewn nifer o ysgolion a/neu rolau amrywiol	D	C/Cy
2.3	Arweinyddiaeth effeithiol o ddatblygiadau ysgol gyfan gan gynnwys arwain, monitro, hunanwerthuso a chynllunio datblygu	H	C/Cy/G
2.4	Profiad â thystiolaeth o reoli llinell llwyddiannus gyda dealltwriaeth glir o ddatblygiad staff a rôl Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol (ADPau) wrth godi safonau	H	C/Cy/G
2.5	Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ran cynllunio a rheoli ariannol strategol effeithiol ar gyfer ysgol	E	C/Cy/G
2.6	Gwybodaeth ardderchog o Fframwaith Arolygu Estyn, neu gyfwerth	H	C/Cy
2.7	Dangos dealltwriaeth glir o lefel atebolwydd a chyfrifoldeb proffesiynol y Pennaeth	H	C/Cy
2.8	Y gallu i reoli ysgol o ddydd i ddydd, gan gynnwys rheoli dirprwyo tasgau a monitro eu gweithredu	H	C/Cy/G
<b>3</b>	<b><i>GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL</i></b>		<i>C/G/TY/Cy</i>
3.1	Dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol gref o ran blaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn perthynas â'r cwricwlwm (CiG) a safonau addysgu	H	C/Cy/TY

3.2	Wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn weithredol o fewn yr ysgol, gan gynnwys llunio cynlluniau strategol ar y cyd â'r Awdurdod lleol i gynyddu nifer y dysgwyr i addysg cyfrwng Cymraeg	H	C/Cy
3.3	Yn dangos ymrwymiad a'r gallu i ddylanwadu ar welliant parhaus ysgolion a datblygiad cynaliadwy	H	C/Cy/G
3.4	Dealltwriaeth a gwybodaeth gref o ran y cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd a gweithio a chefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol	H	C/Cy
3.5	Deall sut i wella a datblygu cyfnodau pontio rhwydd trwy addysg, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni eu potensial yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd.	H	C/Cy
3.6	Deall rôl strategol y Corff Llywodraethu a thystiolaeth o gydweithredu llwyddiannus	H	C/Cy/G
3.7	Gwybodaeth a dealltwriaeth o ran holl ofynion a goblygiadau deddfwriaeth addysg, rheolaeth leol a threfniadau arolygu	H	C/Cy
3.8	Gwybodaeth a dealltwriaeth o ran gofynion statudol a phrofiad Amddiffyn Plant, Recriwtio Mwy Diogel, Diogelu ac Atal	H	C/Cy
3.9	Gwybodaeth a dealltwriaeth o ran y materion cyfreithiol allweddol sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth, anabled, cyflogaeth, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth cysylltiadau cyhoeddus	H	C/Cy
<b>4</b>	<b>SGILIAU A GALLUOEDD PERSONOL</b>		C/G/TY/Cy
4.1	Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu rhagorol	H	C/Cy/G
4.2	Y gallu i weithio dan bwysau, trefnu gwaith, blaenoriaethu tasgau, gwneud penderfyniadau a rheoli amser yn effeithiol	H	C/Cy/G
4.3	Yn dangos gwydnwch ac yn gallu parhau'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig wrth weithio o dan bwysau	H	C/Cy/G
4.4	Yn gallu cyfleu gweledigaeth strategol a rennir sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi holl aelodau cymuned yr ysgol	H	C/Cy
4.5	Bydd yn sicrhau bod cynllunio strategol yn ystyried amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol	H	C/Cy
4.6	Y gallu i ddadansoddi data, datblygu cynlluniau strategol, gosod targedau a monitro/gwerthuso perfformiad unigol ac ysgol gyfan	H	C/Cy
4.7	Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol lle mae cyfraniad yr holl staff a rhanddeiliaid yn cael ei werthfawrogi	H	C/Cy/G
4.8	Yn deall gwerth arweinyddiaeth wasgaredig o fewn yr ysgol er mwyn adeiladu ar, a datblygu, y systemau a'r strwythurau sy'n ei galluogi i redeg yn effeithlon ac yn effeithiol	H	C/Cy
4.9	Y gallu i reoli newid mewn modd effeithiol a sensitif	H	C/Cy
4.10	Yn gallu gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd amlasiantaethol a datblygu perthnasoedd gwaith da â'r Corff Llywodraethu, yr AALL ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol a safonau cyrhaeddiad gwell	H	C/Cy
4.11	Profiad o weithio ar y cyd â llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, cyngbreiriaid ysgolion, yr awdurdod lleol.	H	C/Cy
4.12	Wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rôl ganolog yn ei chymuned a bod ganddi weledigaeth glir ar gyfer rôl yr ysgol yn ei chymuned ac awydd brwd i'w datblygu.	H	C/Cy
4.13	Gallu ymwneud yn empathig â rhieni/gofalwyr, myfyrwyr, staff, Llywodraethwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach	H	C/Cy/G

<b>5</b>	<b>ADDYSGU A DYSGU</b>		C/G/TY/Cy
5.1	Ymarferydd dosbarth neilltuol gyda dealltwriaeth ardderchog o sut mae myfyrwyr yn dysgu a nodweddion craidd ymarfer ystafell ddosbarth llwyddiannus	H	G/TY
5.2	Meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran safonau cyrhaeddiad, lles ac ymddygiad plant	H	C/Cy/TY
5.3	Creu hinsawdd ysgol gynhwysol sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion sy'n hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol i bawb	H	C/Cy
5.4	Yn dangos dull arloesol a chreadigol o ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored	H	C/Cy
5.5	Profiad llwyddiannus o reoli ymddygiad cadarnhaol a datblygu amgylchedd dysgu cynhwysol ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr	H	C/Cy/TY
5.6	Yn gallu sefydlu a chynnal diwylliant o her a chefnogaeth lle y gall yr holl ddysgwyr lwyddo a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain	H	C/Cy
5.7	Wedi ymrwymo i hyrwyddo dulliau creadigol, ymatebol ac effeithiol o addysgu a dysgu.	H	C/Cy
5.8	Sicrhau bod dysgu wrth wraidd cynllunio strategol a rheoli adnoddau.	H	C/Cy
5.9	Yn dangos gwerthfawrogiad cryf o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac ymrwymiad clir i uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050	H	C/Cy
5.10	Ymrwymedig i gefnogi gweithgareddau a chyfleoedd cyfoethogi ychwanegol a fydd yn gwella profiadau'r disgyblion.	H	C/Cy
<b>6</b>	<b>DISGYBLION A STAFF</b>		
6.1	Yn frwd dros addysgu a datblygiad disgyblion a staff yn ogystal â hunanddatblygiad	H	C/Cy
6.2	Wedi ymrwymo i adeiladu cymunedau dysgu proffesiynol sy'n galluogi pawb i gyflawni	H	C/Cy
6.3	Wedi ymrwymo i hyrwyddo'r lefel uchaf o les i holl aelodau cymuned yr ysgol ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cydbwysedd bywyd gwaith i'r holl staff ac iddo'i hun/iddi'i hun	H	C/Cy
6.4	Yn deall pwysigrwydd llais y disgybl a sut i hyrwyddo hyn yn effeithiol	H	C/Cy
6.5	Yn gallu ysbrydoli ac ysgogi staff, myfyrwyr, rhieni a llywodraethwyr i gyflawni nodau'r ysgol, a gweithio gyda hyder, rhagoriaeth a disgwyliadau uchel	H	C/Cy

Allwedd	
C	Ffurflen Gais/Llythyr Cais
Cy	Cyfweliad
TY	Tasg yn yr Ysgol
G	Geirdaon